

Mae hi bron yr awr! [Cerdd Nadolig]

Ysgrifennwyd gan Steph Openshaw
Darluniwyd gan Kristina Abbott
Cyfieithwyd gan Delyth Wyn

**CREFFTAU A GWEITHGAREDDAU I
BLANT BACH**




Wedi'i gynllunio i gyd-fynd â *Mae hi bron yr awr!* (*Cerdd Nadolig*), mae'r adnoddau canlynol wedi'u creu ar gyfer plant bach a'u hoedolion i fwynhau gyda'i gilydd. Mae Duw yn mwynhau treulio amser gyda ni, felly gobeithio y cewch hwyl wrth i chi chwarae gyda'ch gilydd ac wrth i chi ymhyfrydu ynddo ef hefyd.



Canwch y stori

Rhowch gynnig ar ganu'r stori i dôn *'Twinkle, Twinkle, Little Star'*. Mae'n ffordd wych o'i chofio.



Cyfrwch y sêr

Allwch chi gyfrif y sêr ar y tudalennau yn y stori? Efallai y bydd mwy nag yr ydych chi'n meddwl!



Gwisgo

Gwisgwch fel cymeriad o stori'r Nadolig gyda'ch ffrindiau. Pwy neu beth allech chi fod? Cyflwynwch 'sioe stori' i'ch teulu a'ch ffrindiau.



Gweddi rym-gweithiol

Diolch i ti am y baban Iesu. Ef yw dy anrheg orau i mi! Hwrê! Amen!

Dywedwch a gwnewch y weddi fel hyn:

Diolch i ti am y baban Iesu.
(esgus siglo babi)

Ef yw dy **(pwyntio i fyny)** anrheg orau **(bawd i fyny)** i mi **(tapiwch y frest gyda bodiau)**! Hwrê **(dyrnu'r awyr)**!

Aaaamen!

(dwylo yn rholio o amgylch ei gilydd yn codi'n uchel yn yr awyr ac yn gorffen gyda breichiau wedi'u codi mewn mawl)




Tair crefft addurniadau Nadolig

Gellir dod o hyd i unrhyw ddeunyddiau crefft a ddefnyddir wrth wneud yr addurniadau isod ar-lein, ond mae bob amser yn werth cadw llygad allan mewn siopau disgownt hefyd. Bydd angen ffyn glud a chadachau glanhau dwylo bach gyda phob crefft.



Crefft 1



Yn yr awyr fry uwchben
Yn sbecian lawr mae seren wen.
Allan o *Mae hi bron yr awr!* tudalen 6.

Deunyddiau Crefft 1

Bydd angen: sêr cerdyn ffoil mawr, naill ai wedi'u prynu neu wedi'u gwneud gartref; llygaid gwgli; papur gwyn i wneud y geg sy'n gwenu; papur sidan oren a melyn wedi'i rhwygo i lynu ar y cefn; tyllwr i wneud twll ar frig yr addurniadau a rhuban ffoil i'w hongian i fyny.





Crefft 2

Gwelant engyl a golau cry!
'Baban bach a anwyd i chi.'
Allan o *Mae hi bron yr awr!* tudalen 12.

Deunyddiau Crefft 2

Bydd angen: casys cacen papur ffoil mawr, wedi'u plygu'n hanner ac yna plygu'n hanner eto, gyda'r haenau wedi'u gludo i lawr wrth i chi fynd, i wneud y wisg; casys cacen papur gwyn mawr, wedi'u plygu'n hanner ac yn sownd yn ei gilydd, i wneud yr adenydd (glynwch ar gefn y wisg fel y dangosir yn y llun); glud/beiro llewylch aur i addurno'r adenydd gyda dotiau aur; rhuban ffoil i gadw y tu mewn i blyg yr adenydd i hongian yr addurn i fyny; sticeri gwyn crwn diamedr 2cm, gyda llun wyneb yr angel; a sticeri seren sbwng ar gyfer 'het' yr angel.




Crefft 3

Ei enw yw Iesu. Cariad yw.
Dyma i ti rodd fwyaf Duw.
Allan o *Mae hi bron yr awr!* tudalen 16.

Deunyddiau Crefft 3

Bydd angen: calonnau cerdyn ffoil mawr, wedi'u prynu neu eu gwneud gartref, twll wedi'i wneud ar bob ochr; rhuban coch i wthio drwy'r tyllau a hongian yr addurniad; sticeri seren sbwng; ffyn lolipop wedi'u torri'n hanner a cherdyn brown i wneud y preseb; sticeri crwn gwyn diamedr 2cm, gyda llun wyneb y baban Iesu.



Grwpiau plant bach

Os ydych chi'n rhedeg grŵp plant bach, efallai y byddwch chi'n yn hoffi defnyddio'r stori a'r adnoddau dros gyfnod o dair wythnos, fel yr amlinellir isod, gan gychwyn ddechrau mis Rhagfyr. Mwynhewch y cyfle hwn i'r plant a'u hoedolion i gael hwyl gyda Duw wrth i chi deithio drwy ymarferion y geni gyda'r rhai bach yn defnyddio *Mae hi bron yr awr!* (Cerdd Nadolig).



Wythnos 1

Crefft: Y Seren. Os yw eich grŵp yn cael coeden Nadolig, gallai eich plant wneud dwy seren yr un – un i hongian i fyny yn y cartref ac un i hongian i fyny ar goeden y grŵp. Gwnewch yn siŵr bod gan y ddwy seren enwau'r plant arnynt fel y gellir rhoi sêr y plant i deulu'r eglwys ar ôl y Nadolig i'w hatgoffa i weddio dros y plant hynny a'u teuluoedd.

Stori: Rhannwch ddau bennill cyntaf y stori (tudalennau 6–9 *Mae hi bron yr awr!*) Canwch i dôn 'Twinkle, Twinkle, Little Star' neu adroddwch yn rhyngweithiol gyda symudiadau y gall y plant a'r oedolion ymuno â nhw. Efallai y byddwch hyd yn oed hoffi defnyddio cyfuniad o'r ddau!

Gwedd: Defnyddiwch y weddi rhyngweithiol o'r adnodd



Wythnos 2

Crefft: Yr Angel

Stori: Rhannwch benillion pump a chwech o'r stori yn yr un modd â'r wythnosau blaenorol (tudalennau 10–13 *Mae hi bron yr awr!*)

Gwedd: Defnyddiwch y weddi rhyngweithiol o'r adnodd.



Wythnos 3

Crefft: Preseb Calon

Stori: Rhannwch benillion tri a phedwar o'r stori yn yr un modd â'r wythnosau blaenorol (tudalennau 14–17 *Mae hi bron yr awr!*)

Gwedd: Defnyddiwch y weddi rhyngweithiol o'r adnodd.

Wrth i chi gloi'r grŵp plant bach ar gyfer y Nadolig, efallai yr hoffech wahodd teuluoedd i un o'ch gwasanaethau'r Nadolig i weld eu plant yn canu'r stori, gan ofyn iddyn nhw wisgo i fyny fel rhywbeth (seren neu anifail) neu rywun o'r stori. Yn olaf, cofiwch fwynhau'ch hun a chael hwyl gyda'ch gilydd, gyda Duw, ar yr adeg ryfeddol hon o'r flwyddyn. Nadolig llawen!

